

## THOMAS, WILLIAM (fl. c. 1685 - c. 1740?), ysgrifennydd i Robert Harley, iarll 1af Oxford

**Enw:** William Thomas

**Rhiant:** Thomas Thomas

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** ysgrifennydd i Robert Harley, iarll 1af Oxford

**Maes gweithgaredd:** Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil

**Awdur:** William Llewelyn Davies

mab Thomas Thomas ' gent,' Llanyddyfri; yr oedd yn frawd i [Timothy Thomas](#) (1694 - 1751). 'He never had any Academical Education' meddai Thomas Hearne amdano. Serch hynny yr oedd yn r dawnus mewn rhai cyfeiriadau ac yn gallu bod o gymorth gyda ' [Moses Williams](#)'s Design of printing some British or Welch Things, & he is mightily for having them only in yt Language ' (Hearne, *Collections*, vii, 50). Ceir ei enw fel tanysgrifiwr at fwriadau llyfryddol [Moses Williams](#). Tybia Hearne iddo gychwyn fel gwas i [Robert Harley](#); yn ddiweddarach daeth yn ysgrifennydd iddo. Y mae yn B.M. Harl. MS. 7526 lythyr a ysgrifennodd [Moses Williams](#) 16 Ebrill 1719, at frawd William Thomas sef [Timothy Thomas](#) lle y cyfeiria [Williams](#) at William Thomas dan yr enw ' Gwilym Gwalstawd leithoedd '; y mae hyn yn awgrymu bod gan William Thomas rywfaint o allu i ddysgu ieithoedd. Ceir yng nghatalog yr Hist. MSS. Comm. bapurau a dogfennau duc Portland lythyrau a ysgrifennodd William Thomas, 1708 a 1709, at [Edward Harley](#), mab yr [iarll Oxford 1af](#), pan oedd hwnnw yn efrwydd yn Christ Church, Rhydychen, llythyrau yn rhoddi manylion am weithrediadau'r Senedd, etc., gan mwyaf; am gyfeiriadau eraill ato yn Portland MSS. gweler y mynegeion i wahanol gyfrolau y catalog. Yn B.M. Harl. MS. 7526 y mae dau lythyr a ysgrifennwyd ganddo at [Edward Harley, ail iarll Oxford](#), yn 1730 - y ddau yn delio â barddoniaeth Gymraeg gynnar (eithr sylwer mai copi yw'r ail lythyr o lythyr gan [Moses Williams](#)). Am gyfran William Thomas yn yr argraffiad pwysig o farddoniaeth Geoffrey Chaucer a gyhoeddwyd yn 1721 gweler yr erthygl ar ei frawd [Timothy](#); er mai [Timothy](#) a gwplaodd y gwaith hwnnw credir mai William a gywirodd ac a ychwanegodd at y bywgraffiad a gychwynasid gan John Dart.

### Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

### Ffynonellau

At y ffynonellau a enwyd eisoes ychwaneger Edward Owen, *A Catalogue of the Manuscripts relating to Wales in the British Museum* (1900–22), ii

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q18911932](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

